

Cyllideb Refeniw 2012/13 Adolygiad Trydydd Chwarter**Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran**

	Ail Chwarter	Trydydd Chwarter		
	Gor / (Tan) Wariant Net	Gor / (Tan) Wariant Gros 2012/13	Trosglwyddiad i/(o) Gronfeydd neu Balansau	Gor/ (Tan) Wariant Net
	£ '000	£ '000	£ '000	£ '000
Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol	381	205		205
Darparu a Hamdden	60	93		93
Addysg	58	58		58
Economi a Chymuned	197	104		104
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	155	213		213
Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)	(187)	(99)		(99)
Ymgynghoriaeth Gwynedd	520	496		496
Corfforaethol	8	7		7
Adnoddau Dynol	(34)	(27)		(27)
Cyllid	(33)	(19)		(19)
Democratiaeth a Chyfreithiol	(16)	(23)		(23)
Gofal Cwsmer	(28)	(53)		(53)
Strategol a Gwella Tim Rheoli	(90)	(83)		(83)
Corfforaethol	(16)	(12)		(12)
Cyfansymiau (net)	975	860	-	860

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ATODIAD 2

Crynhoad Sefyllfa Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol	Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Canolog	4,011	4,296	4,224	(72)	0	(72)
Cyfanswm Gwasanaethau Canolog	4,011	4,296	4,224	(72)	0	(72)
Gwasanaethau Gweithredol	1,701	1,654	1,755	101	0	101
Gwasanaeth Adnoddau	7,712	7,905	8,052	147	0	147
Eraill	4,568	4,539	4,541	2	0	2
Cyfanswm Gwasanaeth Plant a Theuluoedd	13,981	14,098	14,348	250	0	250
Gwasanaethau Pobl Hŷn	19,075	18,944	18,954	10	0	10
Gwasanaethau Anabledd Corff	2,084	1,820	1,781	(39)	0	(39)
Anabledd Dysgu	11,105	11,237	11,201	(36)	0	(36)
Iechyd Meddwl	3,243	3,315	3,454	139	0	139
Eraill	2,961	3,043	3,011	(32)	0	(32)
Cyfanswm Gwasanaeth Oedolion	38,468	38,359	38,401	42	0	42
Tai Sector Breifat	3,751	3,774	3,761	(13)	0	(13)
Digartrefedd	732	766	801	35	0	35
Eraill	746	768	731	(37)	0	(37)
Cyfanswm Gwasanaeth Tai	5,229	5,308	5,293	(15)	0	(15)
Cyfanswm Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol	61,689	62,061	62,266	205	0	205

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: TAI A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Gwasanaethau Canolog

Maes:- Gwasanaethau Canolog

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
4,011	4,296	4,224	(72)		(72)

Eglurhad:- Cynnydd pellach o (£65k) yn y tanwariant net ers yr ail chwarter, ac yn cynnwys cymysgedd o wahaniaethau, ond yn bennaf, tanwariant staffio unwaith ac am byth o (£23k), tanwariant cynlluniau datblygu o (£20k) a lleihad o (£8k) yn y lefel gorwariant parthed archebu offer Cynllun Teleofal.

Gwasanaeth Plant a Theuluoedd

Maes:- Gwasanaethau Gweithredol

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
1,701	1,654	1,755	101		101

Eglurhad:- Cynnydd o £10k yn y lefel gorwariant ers yr ail chwarter, oherwydd costau staffio ychwanegol o ganlyniad i dderbyn mwy o achosion.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: TAI A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Gwasanaeth Plant a Theuluoedd

Maes:- Gwasanaeth Adnoddau

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
7,712	7,905	8,052	147		147

Eglurhad:- Fe drosglwyddwyd cyllideb o (£250k) ar sail unwaith ac am byth o benawdau eraill yn yr Adran fel rhan o'r adolygiad ail chwarter, i leddfu'r sefyllfa gorwariant ar y Gwasanaeth Adnoddau, a thrwy hyn yn gostwng y gorwariant net i £184k. Bellach, fe ragwelir y gorwariant yn gostwng (£37k) i £147k, yn bennaf oherwydd lleihad o (£103k) yn y gorwariant ar Leoliadau All-Sirol i lawr i £22k, cynnydd o £45k mewn gorwariant ar Maethu a Mabwysiadu i £222k, gwariant uwch o £15k gan y Tim Lleoliadau i ostwng y sefyllfa tanwariant i lawr i (£2k), a gwariant uwch o £5k ar Maethu drwy Asiant i leihau'r tanwariant i (£98k).

Maes:- Eraill

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
4,568	4,539	4,541	2		2

Eglurhad:- Gostyngiad o (£59k) yn y sefyllfa gorwariant o £61k a ragwelwyd yn yr ail chwarter, yn cynnwys tanwariant (£5k) ar Gwasanaeth Ol-16, tanwariant (£21k) ar Gwasanaethau Arbenigol, tanwariant (£10k) ar Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, a gorwariant £38k ar Gwasanaethau Eraill, yn bennaf oherwydd ffioedd llys uwch o £35k.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**ADRAN: TAI A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL****Gwasanaeth Oedolion****Maes:- Gwasanaethau Pobl Hŷn**

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
19,075	18,944	18,954	10		10

Eglurhad:- Sefyllfa lled-niwtral sy'n cynnwys tanwariant o (£260k) ar Preswyl a Nyrsio, yn bennaf oherwydd gostyngiad mewn gwariant (£100k) ac incwm ychwanegol (£159k) yn dilyn cynnydd sylweddol yn y nifer o achosion sy'n talu'n llawn am wasanaeth. Ar y llaw arall fe welir gorwariant sylweddol o £399k ar Gofal Cartref, sy'n gynydd o £176k ers yr ail chwarter, oherwydd pwysau ychwanegol am y gwasanaeth. Defnyddir darpariaeth demograffi (£135k) sydd ar gael ar gyfer cwrd â tueddiad disgwylidig o 6f.

Argymhelliad:- Trosglwyddwyd £200k o gyllidebau'r Gwasanaethau Pobl Hŷn yn yr ail chwarter i leddfu'r pwysau ar y gyllideb Plant a Phobl Ifanc. Yn yr amgylchiadau, argymhellir fod yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystyried gwneud trosglwyddiad ar sail parhaol ar gyfer 2013/14.

Maes:- Gwasanaethau Anabledd Corff

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
2,084	1,820	1,781	(39)		(39)

Eglurhad:- Sefyllfa tanwariant cyffredinol yn parhau ar nifer o benawdau, sy'n cymharu hefo tanwariant net (£44k) yn yr ail chwarter ar ôl trosglwyddo cyllideb o £250k i leddfu'r sefyllfa gorwariant a ragwelwyd ar Wasanaethau Anabledd Dysgu a Iechyd Meddwl.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: TAI A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Gwasanaeth Oedolion

Maes:- Anabledd Dysgu

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
11,105	11,237	11,201	(36)		(36)

Eglurhad:- Sefyllfa tanwariant (£36k) sy'n welliant (£91k) ar y gorwariant net £55k a ragwelwyd yn yr ail chwarter, ar ôl derbyn trosglwyddiad cyllideb o £150k ar sail unwaith ac am byth o'r pennawd Anabledd Corff.
Fe gynhwysir tanwariant o (£64k) ar Cartrefi Preswyl a Nyrsio Annibynol (sef gwelliant (£139k) oherwydd lleihad yn y pwysau am y gwasanaeth), gorwariant o £37k ar Llety Cefnogol, gorwariant o £26k ar Gwasanaethau Dydd, a tanwariant o (£58k) ar Cynlluniau Cefnogol.

Maes:- Iechyd Meddwl

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
3,243	3,315	3,454	139		139

Eglurhad:- Rhagwelir gorwariant £139k, sy'n gynydd £96k ar y gorwariant net £43k a ragwelwyd yn yr ail chwarter, ar ôl derbyn trosglwyddiad cyllideb o £100k ar sail unwaith ac am byth o'r pennawd Anabledd Corff.
Fe gynhwysir yn bennaf, gorwariant o £31k ar Cynllun Lleoli Oedolion, gorwariant o £29k ar Llety Cefnogol (sef gwariant uwch o £33k), a gorwariant o £92k ar Cefnogaeth a Chynlluniau Eraill (sef cynnydd o £62k, oherwydd yn bennaf cyfraniadau posib uwch yn y drefniant cyd-ariannu hefo'r Bwrdd Iechyd).

Argymhelliad:- Yng ngoleuni'r sefyllfa gorwariant ar y pennawd yma, fe argymhellir fod yr Adran yn ystyried gwneud trosglwyddiad parhaol o'r ffynhonnellau priodol ar gyfer 2013/14.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: TAI A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Gwasanaeth Oedolion

Maes:- **Eraill**

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
2,961	3,043	3,011	(32)		(32)

Eglurhad:- Yn cynnwys nifer o wahaniaethau, ond yn bennaf, arbedion staffio unwaith ac am byth.

Gwasanaeth Tai

Maes:- **Tai Sector Breifat**

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
3,751	3,774	3,761	(13)		(13)

Eglurhad:- Gwelliant (£36k) o'r sefyllfa gorwariant a ragwelwyd yn yr ail chwarter, yn bennaf oherwydd cynnydd (£24k) mewn incwm ffioedd perthnasol i gynlluniau ardaloedd adnewyddu, a (£14k) oherwydd mewnnoli gwaith gweinyddu ar elfenau o'r rhaglen grantiau.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: TAI A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Gwasanaeth Tai

Maes:- Digartrefedd

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
732	766	801	35		35

Eglurhad:- Gostyngiad (£37k) yn y sefyllfa gorwariant blaenorol £72k a ragwelwyd, yn cynnwys arbedion staffio unwaith ac am byth ychwanegol o (£6k) a gostyngiad mewn costau Llety dros-dro o (£18k).

Gwasanaeth Tai

Maes:- Eraill

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
746	768	731	(37)		(37)

Eglurhad:- Sefyllfa tanwariant sy'n cynnwys cynlluniau Cefnogi Pobl, ac hefyd nifer o wahaniaethau ar benawdau eraill, gan gynnwys arbedion staffio unwaith ac am byth.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: TAI A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Tai a Gwasanaethau Cymdeithaso!

Mae cyfanswm gorwariant net o £205k yn welliant sylweddol (£176k) o'r sefyllfa a ragwelwyd yn yr ail chwarter, sef gorwariant o £381k. Mae'r Adran yn parhau i gymryd camau penodol er mwyn ceisio osgoi sefyllfa gorwariant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, pe byddai'r darlun cyfredol yn parhau bwriedir defnyddio cyfraniad o danwariant adrannol blaenorol a darpariaeth mewn cronfa penodol wrth gefn tuag at sefyllfa gorwariant posib.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

Crynhoad Sefyllfa Adran Darparu a Hamdden	Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyfanswm Gwasanaethau Canolog	0	(50)	(91)	(41)	0	(41)
Cyfanswm Gwasanaeth Darparu	29	(220)	(77)	143	0	143
Cyfanswm Gwasanaeth Hamdden	4,547	4,466	4,457	(9)	0	(9)
Cyfanswm Darparu a Hamdden	4,576	4,196	4,289	93	0	93

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: DARPARU A HAMDDEN

Maes:- Gwasanaethau Canolog

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
0	(50)	(91)	(41)		(41)

Eglurhad:- Gostyngiad £27k yn y sefyllfa tanwariant (£68k) a ragwelwyd yn yr ail chwarter. Cynhwysir yn bennaf arbedion staffio ne yn dilyn o'r newidiadau diweddar rhwng yr Adran Darparu a Hamdden a'r Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Maes:- Gwasanaeth Darparu (sefyllfa net)

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
29	(220)	(77)	143		143

Eglurhad:- Am y tro, rhagwelir sefyllfa gorwariant net £143k, sy'n cynnwys gorwariant £20k ar Arlwy oherwydd costau gweithredol uwch, gorwariant £36k ar Gofal Preswyl, eto oherwydd costau gweithredol uwch, a gorwariant £80k ar Gofal Cymunedol (sy'n gyllideb gros £6 miliwn), oherwydd costau gweithredol uwch a mân ostyngiad mewn incwm. Mae'r Adran yn adolygu'r trefniadau perthnasol i geisio sicrhau y byddant mewn sefyllfa lled niwtral erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: DARPARU A HAMDDEN

	Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:- Gwasanaeth Hamdden	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	4,547	4,466	4,457	(9)		(9)

Eglurhad:- Sefyllfa tanwariant net sy'n cynnwys tanwariant (£7k) ar Gyfleusterau Hamdden, yn bennaf oherwydd gostyngiad mewn gwariant, a thanwariant (£2k) ar Ddatblygu Chwaraeon.

Darparu a Hamdden

Mae'r gwasanaethau perthnasol yn ceisio sicrhau fod y rhagolygon diweddaraf o sefyllfa gorwariant net yn gwella erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Am y tro, pe byddai'r darlun cyfredol yn parhau, bwriedir defnyddio cronfa tanwariant blaenorol adrannol i'w glirio.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

Crynhoad Sefyllfa Adran Addysg	Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cludiant	4,682	4,436	4,487	51	0	51
Diswyddo Gorfodol / Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol	308	179	157	(22)	0	(22)
Integreiddio Disgyblion AAA	363	355	210	(145)	0	(145)
All Sirol	250	250	308	58	0	58
Gwasanaeth Gwella Ysgolion	472	472	572	100	0	100
Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol	1,592	1,224	1,268	44	0	44
Strategaeth Cynhwysiad	0	448	381	(67)	0	(67)
Eraill	11,628	11,810	11,849	39	0	39
Ysgolion Datganoledig	67,284	67,284	67,284	0	0	0
Cyfanswm Addysg	86,579	86,458	86,516	58	0	58

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: ADDYSG

		Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:-	Cludiant	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
		4,682	4,436	4,487	51		51

Eglurhad:- Gostyngiad (£11k) yn y sefyllfa gorwariant ers yr ail chwarter, o ganlyniad i fân addasiadau ar sawl cytundeb.

		Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:-	Diswyddo Gorfodol / Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
		308	179	157	(22)		(22)

Eglurhad:- Sefyllfa tanwariant (£22k) ar ol trosglwyddo £124k i gronfa wrth gefn (yn unol â'r drefn arferol) tuag at ofynion perthnasol yn y dyfodol.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: ADDYSG

Maes:- **Integreiddio
Disgyblion AAA**

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
363	355	210	(145)		(145)

Eglurhad:- Cynnydd (£55k) yn y rhagolygon tanwariant ers yr ail chwarter, oherwydd parhad yn y trefniadau i dynhau ar y meini prawf perthnasol, a'r pwysau ychwanegol am y gwasanaeth a ragwelwyd bellach ddim mor uchel. Oherwydd sefyllfa ariannol gyffredinol yr Adran eleni, bwriedir defnyddio'r tanwariant yma er mwyn lliniaru rhywfaint ar y gorwariant cyffredinol.

Maes:- **All Sirol**

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
250	250	308	58		58

Eglurhad:- Sefyllfa gorwariant sy'n gyson â'r darlun yn yr ail chwarter. Pe byddai hyn yn parhau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol, bwriedir defnyddio cronfa penodol wrth gefn i'r pwrpas o liniaru'r sefyllfa.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: ADDYSG

		Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:-	Gwasanaeth Gwella Ysgolion	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
		472	472	572	100		100

Eglurhad:- Sefyllfa gorwariant sy'n gyson â'r darlun a ragwelwyd yn yr ail chwarter, sef oedi cyn cynhaeafu arbedion o'r cynllun cydweithio ar draws Gogledd Cymru oherwydd llithriad gyda'r prosiect i sefydlu'r Cyd-Bwyllgor erbyn Ebrill 2013. Mae'r Adran am bontio diffyg eleni drwy ddefnyddio tanwariant ar benawdau eraill.

		Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:-	Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
		1,592	1,224	1,268	44		44

Eglurhad:- Cynnydd £40k yn y gorwariant ers yr ail chwarter, yn cynnwys gorwariant £42k o ganlyniad i ail leoli Ysgol Coed Menai, ble disgwyliwyd arbediad o 1 Ebrill, 2012, ond ni fu'r ysgol gau tan 31 Awst, 2012, ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: ADDYSG

		Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:-	Strategaeth Cynhwysiad	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
		0	448	381	(67)		(67)

Eglurhad:- Rhagolygon sy'n weddol gyson â'r sefyllfa tanwariant o (£69k) a ragwelwyd yn yr ail chwarter, yn bennaf oherwydd arbedion staffio unwaith ac am byth, a derbyniad o grant perthnasol na ragwelwyd yn flaenorol.

		Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:-	Eraill	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
		11,628	11,810	11,849	39		39

Eglurhad:- Sefyllfa gorwariant net sy'n cynnwys nifer o wahaniaethau ar sawl pennawd, ac yn arbennig costau ychwanegol £37k i'r Biwro Troseddu oherwydd gofynion i wirio mwy o staff.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: ADDYSG

Maes:- Ysgolion Datganoledig

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
67,284	67,284	67,284	0		0

Eglurhad:- Cyllidebau lle mae rheolaeth wedi'i ddirprwyo i gyrff llywodraethu.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

Crynhoad Sefyllfa Adran Economi a Chymuned	Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cefnogi Busnes	138	136	28	(108)	0	(108)
Marchnata a Gofal Cwsmer	670	703	751	48	0	48
Morwrol	(84)	(138)	28	166	0	166
Eraill	5,156	5,235	5,233	(2)	0	(2)
Cyfanswm Economi a Chymuned	5,880	5,936	6,040	104	0	104

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: ECONOMI A CHYMUNED

		Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:-	Cefnogi Busnes	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
		138	136	28	(108)	0	(108)

Eglurhad:- Cynnydd (£44k) yn y tanwariant a ragwelwyd yn yr adolygiad ail chwarter. Mae'r tanwariant (£108k) yn cynnwys arbedion trosiant staff (£21k), arbedion (£15k) wedi'u gwireddu ymlaen llaw o'r targed arbedion adrannol, incwm ychwanegol (£33k) oherwydd cynnydd yn y nifer o denantiaid mewn Unedau Busnes a Diwydianol, tanwariant (£18k) mewn costau rhedeg Unedau Busnes a Diwydianol, a thanwariant (£15k) ar becynau grantiau.

		Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:-	Marchnata a Gofal Cwsmer	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
		670	703	751	48	0	48

Eglurhad:- Sefyllfa gorwariant sy'n gyson â'r darlun yn yr ail chwarter, ac yn cynnwys gostyngiad incwm £20k yn y Canolfanau Twristiaeth, a chostau ychwanegol £28k uwch mewn perthynas a threfniadau lleol hefo'r Fflam Olympaidd.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: ECONOMI A CHYMUNED

Maes:- Morwrol

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
(84)	(138)	28	166	0	166

Eglurhad:- Sefyllfa gorwariant sy'n welliant o (£31k) i'r darlun gorwariant £197k a ragwelwyd yn yr ail chwarter, ac yn cynnwys diffyg incwm o £251k yn ei gyfanrwydd, sef, Hafan, Pwllheli - £147k, Harbyrau - £76k, a Traethau - £28k. Fe welwyd hefyd leihad mewn gwariant o (£85k) ar nifer o wahanol benawdau. Pe byddai'r darlun yma'n parhau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae'r Adran yn bwriadu defnyddio cronfa tanwariant blaenorol adrannol i leddfua'r sefyllfa. Yn ychwanegol, penderfynodd y Cabinet yng nghyfarfod 24 Gorffennaf 2012 (pan yn ystyried yr adolygiad chwarterol cyntaf), i ofyn i'r Pennaeth Economi a Chymuned i adrodd ymhellach ar y 'Cyfeiriad i ymateb i sefyllfa ariannol Yr Hafan', a deallir bwriedir adrodd i'r Cabinet ar y mater yn fuan.

Maes:- Eraill

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
5,156	5,235	5,233	(2)		(2)

Eglurhad:- Tanwariant net myloll ar nifer o benawdau cyllideb eraill.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

Crynhoad Sefyllfa Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys yr Asiantaeth Cefnffyrdd)	Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwaredu Gwastraff	3,857	3,869	4,091	222	0	222
Safleoedd Gwaredu	1,840	1,879	2,144	265	0	265
Safleoedd Trosglwyddo a Thrin	951	843	652	(191)	0	(191)
Safleoedd Mwynderau	890	913	829	(84)	0	(84)
Casglu Gwastraff ac Ailgylchu	3,949	3,946	3,887	(59)	0	(59)
Casgliadau Gwastraff Masnachol	207	264	412	148	0	148
Cyfanswm Maes Gwastraff	11,694	11,714	12,015	301	0	301
Gwasanaeth Priffyrdd (gan gynnwys Goleuo Priffyrdd)	10,464	10,367	10,350	(17)	0	(17)
Gwasanaethau Profedigaeth	337	330	287	(43)	0	(43)
Glanhau Strydoedd	2,392	2,365	2,421	56	0	56
Tiroedd Agored	825	795	760	(35)	0	(35)
Eraill	1,967	1,812	1,763	(49)	0	(49)
Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol	27,679	27,383	27,596	213	0	213

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

Maes Gwastraff

Maes:- Gwaredu Gwastraff

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
3,857	3,869	4,091	222		222

Eglurhad:- Cynnydd £57k yn y sefyllfa gorwariant ers yr ail chwarter, yn bennaf oherwydd costau £65k uwch i ymdrin â gwastraff gwyrdd.

Maes:- Safleoedd Gwaredu

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
1,840	1,879	2,144	265		265

Eglurhad:- Cynnydd o £42k yn y sefyllfa gorwariant blaenorol a ragwelwyd, yn cynnwys gorwariant £78k ar Ffridd Rasmus, sef costau gweithredol uwch £139k llai incwm ychwanegol (£61k), gorwariant £108k ar Llwyn Isaf, yn bennaf gwariant £80k uwch ar elifiant, a gorwariant o £80k ar Cilgwyn, yn bennaf oherwydd gostyngiad incwm £81k o freindaliadau nwyon.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

Maes:- **Safleoedd
Trosglwyddo a Thrin**

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
951	843	652	(191)		(191)

Eglurhad:- Cynnydd yn y sefyllfa tanwariant (£141k) a ragwelwyd yn flaenorol, yn bennaf oherwydd oediad yn agor 'GwyrAD', sef y safle trin bwyd yn Llwyn Isaf. Hefyd, bu arbedion mewn costau ymdrin â gwastraff gwyrdd yn dilyn newidiadau i'r trefniadau perthnasol.

Maes:- **Safleoedd Mwynderau**

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
890	913	829	(84)		(84)

Eglurhad:- Mân ostyngiad £16k yn y tanwariant a ragwelwyd yn yr ail chwarter, oherwydd arbedion o ganlyniad i'r oediad yn agor safle mwynderau Blaenau Ffestiniog, ynghyd ag arbedion staffio unwaith ac am byth, ac arbedion hefo costau gweithredol eraill.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

	Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:- Casglu Gwastraff ac Ailgylchu	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	3,949	3,946	3,887	(59)		(59)

Eglurhad:- Cynnydd o (£15k) yn y sefyllfa tanwariant a ragwelwyd yn flaenorol, oherwydd arbedion net mewn rhai costau gweithredu, ar ben y tanwariant blaenorol o ganlyniad i'r oediad mewn cyflwyno rhan o'r gwasanaeth casgliadau ailgylchu.

	Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:- Casgliadau Gwastraff Masnachol	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	207	264	412	148		148

Eglurhad:- Mân welliant (£40k) i'r sefyllfa gorwariant £152k a ragwelwyd yn yr ail chwarter, yn cynnwys costau £76k uwch ar waredu a thirlenwi, gostyngiad £110k mewn incwm gan fasnachwyr, ond arbedion mewn costau gweithredol (£34k).

Gwastraff yn gyffredinol

Mae'r Cabinet eisioes yng nghyfarfod 22 Ionawr 2013, wedi derbyn adroddiad manwl yngŷn â'r sefyllfa gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd a'r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, sydd wedi derbyn sylw pellach gan y Pwyllgor Archwilio ar 29 Ionawr 2013.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

	Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:- Gwasanaeth Priffyrdd (gan gynnwys Goleuo Priffyrdd)	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	10,464	10,367	10,350	(17)		(17)

Eglurhad:- Oherwydd y llifogydd ddiwedd Tachwedd diwethaf, fe welwyd gwariant sylweddol ychwanegol o £242k ar y gwaith ymatebol. Fe ariannwyd hyn gan yr Adran drwy ddefnyddio cronfa penodol wrth gefn i allu ymateb i sefyllfa argyfwng. Mae hyn yn gadael ychydig dros £200k ar gael yn y gronfa ar gyfer unrhyw argyfwng posib arall hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Yn sgil y llifogydd, fe welwyd hefyd ddfrod sylweddol i isadeiladwaith fel ffyrdd, pontydd a waliau cynnal. Rydym mewn trafodaethau hefo Llywodraeth Cymru i geisio derbyn cefnogaeth ariannol tuag at y gost adfer yma, ond am y tro, ni ellir bod yn sicr o dderbyn unrhyw gyfraniad. Fodd bynnag, fe amcangyfrifir cost ychwanegol o oddeutu £780k yn berthnasol i'r elfen isadeiladwaith ffyrdd yn unig. Oherwydd yr ansicrwydd am dderbyniad o unrhyw gefnogaeth ariannol gan Llywodraeth Cymru, mae'r Adran wedi blaenoriaethu rhai gweithiau brys, ar gost o oddeutu £75k, ac i'w ariannu drwy dderbyniad incwm ychwanegol o gontractau.

Yn yr amgylchiadau, efallai byddai'r Cabinet yn awyddus i ystyried rhoddi cefnogaeth ariannol tuag at y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, pan fydd darlun unrhyw gefnogaeth ariannol gan Llywodraeth Cymru yn fwy clir.

Argymhelliad:- Argymhellir fod y Cabinet yn rhoddi ystyriaeth pellach i gefnogaeth ariannol tuag at y gost adfer, pan fydd y sefyllfa cefnogaeth ariannol posib gan Llywodraeth Cymru yn fwy eglur.

	Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:- Gwasanaethau Profedigaeth	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	337	330	287	(43)		(43)

Eglurhad:- Sefyllfa tanwariant sy'n adlewyrchu, yn bennaf, derbyniad incwm ychwanegol.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

Maes:- Glanhau Strydoedd

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
2,392	2,365	2,421	56		56

Eglurhad:- Cynnydd o £40k yn y sefyllfa gorwariant ers yr ail chwarter, ac yn cynnwys yn arbennig, effaith costau tipio-slei-bach sydd wedi codi i £20k.

Maes:- Tiroedd Agored

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
825	795	760	(35)		(35)

Eglurhad:- Sefyllfa tanwariant sy'n adlewyrchu llwyddiant i ddenu incwm ychwanegol o gontractau mewnol ac allanol.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

Maes:-

Erail

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
1,967	1,812	1,763	(49)		(49)

Eglurhad:- Yn cynnwys yn bennaf tanwariant (£12k) ar Gorfodaeth Stryd oherwydd arbedion staffio unwaith ac am byth, tanwariant (£14k) ar drefniadau gweinyddu bwrdeistrefol, eto oherwydd arbedion staffio, a thanwariant (£19k) ar drefniadau gweithredol parthed carthffosiaeth.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

Crynhoad Sefyllfa Adran Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)	Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth Datblygu	641	552	513	(39)	0	(39)
Meysydd Parcio	(1,026)	(950)	(892)	58	0	58
Trafnidiaeth Cyhoeddus	1,620	1,666	1,489	(177)	0	(177)
Eraill	10,050	9,976	10,035	59	0	59
Cyfanswm Rheoleiddio	11,285	11,244	11,145	(99)	0	(99)

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: RHEOLEIDDIO

Maes:- Rheolaeth Datblygu

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
641	552	513	(39)		(39)

Eglurhad:- Sefyllfa tanwariant sy'n gyson â'r amcangyfrif ail chwarter, yn bennaf oherwydd derbyniad ffioedd incwm uwch, ac yn arbennig yn berthnasol i geisiadau am gynlluniau mawr.

Maes:- Meysydd Parcio

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
(1,026)	(950)	(892)	58		58

Eglurhad:- Gostyngiad (£40k) yn y sefyllfa gorwariant ers yr ail chwarter, yn bennaf oherwydd incwm ffioedd ychwanegol (£30k), a thanwariant (£10k) ar gostau gweithredol. Mae'r Adran Rheoleiddio yn parhau i adolygu y gwasanaeth parcio gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad cynhwysfawr i'r Cabinet maes o law. Fe ddiweddarwyd ar waith yr adolygiad gan y Pennaeth Rheoleiddio yng nghyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ar 29 Ionawr, 2013.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: RHEOLEIDDIO

		Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:-	Trafnidiaeth Cyhoeddus	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
		1,620	1,666	1,489	(177)		(177)

Eglurhad:- Gostyngiad £87k yn y tanwariant tebygol, yn bennaf oherwydd ymrwymadau ychwanegol o £50k hefo prosiectau cynllunio ymlaen, ynghyd a chostau uwch o £24k o ganlyniad i newidiadau i gytundebau bysus.

		Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:-	Erill	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
		10,050	9,976	10,035	59		59

Eglurhad:- Yn cynnwys gorwariant o £23k gan yr Uned Mynediad oherwydd llithriad mewn cyflawni cynllun arbedion tan 2013-14, a gorwariant o £22k ar Weithredu Gwledig.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

Rheoleiddio yn gyffredinol

Fel adroddwyd o dan yr Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol, mae'r llyfogydd diwedd Tachwedd diwethaf wedi achosi gorwariant ychwanegol sylweddol, sydd hefyd wedi achosi difrod i isadeladwaith ein asedau fydd angen buddsodiad ychwanegol i'w ddatrys. Mae'r Adran Rheoleiddio yn asesu ac yn arolygu yn arbennig yr effaith ar bontydd, waliau cynnal a llwybrau cyhoeddus. Rydym mewn trafodaethau hefo Llywodraeth Cymru i geisio derbyn cefnogaeth ariannol tuag at ran o'r gost adfer yma, ond am y tro ni ellir bod yn sicr o dderbyn unrhyw gyfraniad. Yn yr amgylchiadau, efallai byddai'r Cabinet yn awyddus i ystyried rhoddi cefnogaeth ariannol tuag at y sefyllfa, pan fydd y darlun ynglyn a unrhyw gefnogaeth ariannol gan Llywodraeth Cymru yn dod fwy clir ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Argymhelliad:- Argymhellir fod y Cabinet yn rhoddi ystyriaeth pellach i gefnogaeth ariannol tuag at y gost adfer, pan fydd y sefyllfa cefnogaeth ariannol posib gan Llywodraeth Cymru yn fwy eglur.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

Crynhoad Sefyllfa Adran Ymgynghoriaeth	Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ymgynghoriaeth	(526)	(454)	202	656	0	656
Rheolaeth Adeiladu	320	318	291	(27)	0	(27)
Gwasanaeth Eiddo	0	(29)	(168)	(139)	0	(139)
Eraill	821	815	821	6	0	6
Cyfanswm Ymgynghoriaeth	615	650	1,146	496	0	496

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: YMGYNGHORIAETH

Maes:- Ymgynghoriaeth

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
(526)	(454)	202	656		656

Eglurhad:- Adroddwyd yn yr adolygiad ail chwarter, yn seiliedig ar y rhagolygon ar y pryd, byddai'r Gwasanaeth Ymgynghoriaeth yn dangos sefyllfa gwariant net £58k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, yn erbyn targed gweddill disgwylidiedig o (£452k), fyddai wedi golygu sefyllfa "gorwariant" o £510k. Bellach, mae'r rhagolygon diweddaraf yn dangos gallai'r sefyllfa derfynol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol fod yn orwariant o £656k.

Fe ystyriwyd diweddariad ar y sefyllfa gan y Cabinet ar 22 Ionawr, 2013, a'r Pwyllgor Archwilio ar 29 Ionawr, 2013 gyda'r Cabinet yn penderfynu comisiynu gwaith gan y Pennaeth Cyllid i ymchwilio i drefniadau rheolaeth ariannol yn Ymgynghoriaeth ynghyd a sefydlu tystiolaeth o beth yn union sydd wedi digwydd yn 2012-13 a beth yw'r sefyllfa debygol ar gyfer 2013-14. Gobeithir cwblhau'r gwaith a chyflwyno adroddiad erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yma, neu yn fuan yn y flwyddyn ariannol newydd. Byddwn yn gweithio yn ago iawn hefo'r Adran i gyflawni'r gwaith yma, ac er na ddymunwn ragfarnu'r canlyniadau, mae'n glir bydd rhaid edrych yn ofalus iawn, nid yn unig ar drefniadau rheoli'r incwm a gyflawnir, ond hefyd trefniadau rheoli'r gwariant perthnasol.

Yn sgil canlyniadau'r gwaith yma, penderfynodd y Cabinet hefyd i ofyn i'r Aelod Cabinet Amgylchedd arwain ail ddarn o waith i sefydlu model newydd perthnasol i'r gwasanaeth fyddai yn gynladwy ac yn ymatebol i'r sefyllfa economaidd.

Mae gan yr Adran Ymgynghoriaeth ddarpariaeth wrth gefn ar gyfer costau diswyddo a chronfa adrannol yn ei gyfanrwydd o £216k.

Tu draw i hyn, byddai rhaid i'r Cabinet ystyried ymdrin â gweddill y gorwariant o £440k (fel y ragwelir am y tro) wrth ystyried sefyllfa ariannol terfynol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: YMGYNGHORIAETH

	Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:- Rheolaeth Adeiladu	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	320	318	291	(27)		(27)

Eglurhad:- Rhagwelir sefyllfa tanwariant yn cynnwys incwm ffioedd ychwanegol (£7k) a thanwariant ar ffioedd ymgynghorwyr allanol (£21k).

	Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:- Gwasanaeth Eiddo	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	0	(29)	(168)	(139)		(139)

Eglurhad:- Erbyn hyn rhagwelir tanwariant (£139k) sy'n symudiad sylweddol o'r sefyllfa mân orwariant £5k a ragwelwyd yn yr ail chwarter. Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariant (£28k) mewn costau gweithredol, ac incwm ffioedd ychwanegol o (£103k).

	Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:- Eraill	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	821	815	821	6		6

Eglurhad:- Gorwariant net ar nifer o benawdau cyllideb eraill.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

Crynhoad Sefyllfa Adran Corfforaethol	Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Derbyniad Llog Net	(729)	(729)	(633)	96	0	96
Targed Arbedion Trawsadrannol	(1,409)	(1,409)	(1,229)	180	0	180
Eraill Cyffredinol	0	0	0	(269)	0	(269)
Cyfanswm Corfforaethol	(2,138)	(2,138)	(1,862)	7	0	7

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL

	Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:- Derbyniad Llog Net	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	(729)	(729)	(633)	96		96

Eglurhad:- Mae'r rhagolygon diweddaraf yn adlewyrchu gostyngiad o £96k eleni mewn derbyniad llog net, yn bennaf oherwydd gostyngiad mewn cyfraddau llog erbyn ail hanner y flwyddyn, o'i gymharu â'r cyfraddau a dderbyniwyd yn gynharach.

	Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:- Targed Arbedion Trawsadrannol	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	(1,409)	(1,409)	(1,229)	180		180

Eglurhad:- Mae'r sefyllfa cyfredol yn adlewyrchu'r disgwyliad bydd y cyfanswm arbedion a wireddwyd ar gynlluniau penodol trawsadrannol £424k yn fyr o'r targed am eleni, llai (£244k) o arbedion eraill a wireddwyd ymlaen llaw, sy'n gostwng y diffyg net i £180k.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL

Maes:- **Eraill Cyffredinol**

Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
			(269)		(269)

Eglurhad:- Rhagwelir sefyllfa tanwariant net sy'n cynnwys tanwariant (£41k) ar gostau trethi anomestig ar adeiladau'r Cyngor ei hun, gostyngiad mewn rhai ymrwymadau penodol blaenorol o (£58k), ac hefyd rhagwelir gofyn (£170k) yn is na'r ddarpariaeth wrth gefn perthnasol.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**ADRAN: ADNODDAU DYNOL**

Maes:-	Adnoddau Dynol	Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	Gwariant		3,565				
	Incwm ac Ad-daliadau		(3,375)				
	Cyfanswm Net	190	208	181	(27)		(27)

Eglurhad:- Sefyllfa tanwariant lled-gyson gyda'r hyn a raglwyd yn yr ail chwarter, yn cynnwys tanwariant (£48k) oherwydd gwireddu rhan o'r targed arbedion 2013-14 ymlaen llaw, ynghyd â gorwariant o £17k ar wasanaeth cwnsela i staff.

ADRAN: CYLLID

Maes:-	Cyllid	Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	Gwariant		7,491				
	Incwm ac Ad-daliadau		(6,394)				
	Cyfanswm Net	1,097	960	941	(19)		(19)

Eglurhad:- Sefyllfa tanwariant net (£19k), sy'n cynnwys arbedion staffio unwaith ac am byth (£59k) o ganlyniad i effaith trosiant a chyfnodau mamolaeth, gorwariant £54k ar gynnal eiddo, tanwariant (£7k) ar gostau teithio, gorwariant £10k ar ofynion cyfathrebu i gynorthwyo'r cyhoedd hefo newidiadau yn y maes budd-daliadau yn sgil deddfwriaeth 'Diwygio Lles', incwm sybsidi casglu trethi ychwanegol (£38k), a gorwariant £24k ar wasanaethau a chyflenwadau yn gyffredinol.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL

		Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:-	Democratiaeth a Chyfreithiol	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	Gwariant		6,169				
	Incwm ac Ad-daliadau		(5,611)				
	Cyfanswm Net	558	1,040	1,017	(23)		(23)

Eglurhad:- Rhagwelir bellach bydd y diffyg ar yr Argraffdy wedi gostwng i £17k. Yn ychwanegol, fe welir tanwariant o (£16k) ar gyflenwadau swyddfa, arbedion staffio unwaith ac am byth (£9k), tanwariant (£8k) ar gostau hysbysebu gan y gwasanaeth Cofrestru Etholwyr, ac incwm ffioedd ychwanegol (£8k) gan y Gwasanaeth Cofrestru.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: GOFAL CWSMER

		Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Maes:-	Gofal Cwsmer						
	Gwariant		11,486				
	Incwm ac Ad-daliadau		(9,456)				
	Cyfanswm Net	2,030	2,039	1,986	(53)		(53)

Eglurhad:- Cynnydd (£23k) yn y tanwariant (£28k) a ragwelwyd yn yr ail chwarter. Mae'r tanwariant (£53k) tebygol yn cynnwys tanwariant (£24k) gan yr Uned Technoleg Gwybodaeth oherwydd tanwariant staffio unwaith ac am byth o (£119k) a gorwariant o £92k oherwydd yr angen i bontio cynlluniau arbedion sy'n llithro. Cynhwysir hefyd tanwariant (£23k) gan yr Uned Cyswllt Cwsmer, tanwariant (£28k) gan yr Uned Gwybodaeth a Prosesu, gorwariant £19k gan yr Uned Cynlluniau Argyfwng oherwydd methiant i wireddu ei targed arbedion, a tanwariant net (£38k) gan yr Uned Eiddo oherwydd arbedion staffio unwaith ac am byth. Hefyd, mae'r gwasanaeth Llyfrgelloedd yn gorwario £22k yn bennaf oherwydd costau staffio uwch, a gostyngiad incwm gan un coleg.

CYLLIDEB REFENIW 2012/13 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**ADRAN: STRATEGOL A GWELLA**

		Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:-		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	Strategol a Gwella						
	Gwariant		5,991				
	Incwm ac Ad-daliadau Cyfanswm Net		(5,157)				
		834	717	634	(83)		(83)

Eglurhad:- Sefyllfa tanwariant lled gyson gyda'r hyn a ragwelwyd yn yr ail chwarter, yn cynnwys tanwariant (£72k) gan yr Uned Gwasanaeth Cyflawni a Chefnogi Newid oherwydd arbedion staffio (£49k), arbedion costau teithio (£7k) a thanwariant (£15k) ar wasanaethau a chyflenwadau. Yn ychwanegol, rhagwelir tanwariant (£8k) gan y Gwasanaeth Democraataidd, tanwariant staffio (£13k) gan yr Uned Rheolaeth, a goriwariant £9k gan yr Uned Partneriaethau (hyd nes bydd rhai trefniadau ffurfiol perthnasol mewn lle).

CYLLIDEB Y TIM RHEOLI CORFFORAETHOL

		Cyllideb Agoriadol 2012/13	Cyllideb Arfaethedig 2012/13	Sefyllfa a Ragwelir 2012/13	Amcangyfrif Gor / (Tan) Wariant Gros	Newidiadau ac Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net
Maes:-		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	Tim Rheoli Adrannol						
	Gwariant		763				
	Incwm ac Ad-daliadau Cyfanswm Net		(763)				
		0	5	(7)	(12)		(12)

Eglurhad:- Rhagwelir sefyllfa tanwariant ymylol am y tro, oherwydd tanwariant (£12k) ar wasanaethau a chyflenwadau.